



**Gweminar – Diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth, Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid
Arbennig: Dysgu o Adolygiadau Achos 2007-2019**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

Mae'r weminar hon yn seiliedig ar themâu a negeseuon allweddol y cyhoeddiad uchod gan CoramBAAFF, a seiliwyd ar astudiaeth ledled y DU o 52 o adolygiadau achos yn ymwneud â 98 o blant a oedd wedi profi niwed difrifol wrth fyw gyda gofalwyr maeth, mabwysiadwyr neu warcheidwaid arbennig. Mae'r astudiaeth yn ymestyn dros 12 mlynedd, a dyma'r gyntaf i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar adolygiadau o achosion o blant mewn gofal teuluol amgen. Mae'n amlygu'r materion hynny sy'n benodol i'r plant hyn – dewis ac asesu gofalwyr; cymorth i blant a gofalwyr; a goruchwyllo a rheoli trefniadau.

Mae'r astudiaeth hon yn nodi materion o bryder sy'n codi dro ar ôl tro mewn adolygiadau achos, gan gynnwys:

- asesu a dewis gofalwyr: archwilio cymhellion, bylchau mewn gwybodaeth, materion sensitif, agwedd gofalwyr, a rheoli amheuaeth ac ansicrwydd;
- cadw'r plentyn wrth wraidd yr arferion: gwella'r gwaith o gynllunio lleoliadau, adolygu llesiant plant, gwranddo ar blant, a monitro plant sy'n agored i niwed yn agos;
- cefnogi gofalwyr: lefel yr oruchwyliaeth, effaith pwysau sefydliadol, cynnal gwrthrychedd;
- bod yn ymwybodol o'r rhagdybiaeth o ddiogelwch mewn gofal maeth a mabwysiadu: amharodrwydd i archwilio anesmwythder, gofyn cwestiynau am blentyn absennol, osgoi dylanwadu, a chynnal awdurdod;

SEMINAR FYW AR MICROSOFT TEAMS

Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022, 9.45am tan

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Llun 7 Tachwedd 2022

ARCHEBWCH YMA

Yn bodloni canlyniadau dysgu ar gyfer grwpiau staff C a D o Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol Pob Oed Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Gweminar – Diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr
Maeth, Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid Arbennig:
Dysgu o Adolygiadau Achos 2007-2019**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

HWYLUSWYR

Yr Athro Hedy Cleaver:

Mae'r Athro Hedy Cleaver yn athro emeritws yng Ngholeg Brenhinol Holloway, Prifysgol Llundain. Mae ei phrofiad fel gweithiwr cymdeithasol a seicolegydd plant yn llywio ei hymchwil i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed ac effaith ymyriadau proffesiynol. Yr egwyddor arweiniol sy'n sail i'w gwaith yw'r awydd i wella ansawdd bywyd plant sy'n byw mewn amgylchiadau sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso.

Wendy Rose OBE:

Fel prif Arolygydd Cynorthwyol, roedd gan Wendy Rose OBE gyfrifoldebau dros bolisi plant yn yr Adran Iechyd, yn dilyn profiad o waith cymdeithasol a rheoli ar lefel uwch yn y GIG ac i awdurdod lleol. Fel Uwch-gymrawd Ymchwil yn y Brifysgol Agored, bu'n gweithio ar brosiectau ymchwil a datblygu. Mae wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru ar ei diwygiadau diogelu, ac roedd yn Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae wedi cyhoeddi'n eang, gan gynnwys yr ail ddadansoddiad dwyflynyddol cenedlaethol o adolygiadau o achosion difrifol, Improving Safeguarding Practice, ar gyfer yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2008) yn Lloegr, a gyhoeddodd gyda Julie Barnes.

CYNULLEIDFA DARGED

GWEITHWYR CYMDEITHASOL	RHEOLWYR GWAITH CYMDEITHASOL	SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL
GWEITHWYR CYMDEITHASOL MABWYSI-	CADEIRYDDION PAN- ELI MAETHU	GWASANAETHAU ATAL PERTHNASOL
GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL	SWYDDOGION YR HEDDLU	